

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Quayside Orthodontics
(Caerfyrddin)

Dyddiad arolygu: 11 Tachwedd
2019

Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	28
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Quayside Orthodontics (Caerfyrddin), Llawr Cyntaf Swyddfeydd MacGregor, Jolly Tar Lane, Caerfyrddin, SA31 3LW o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 11 Tachwedd 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid orthodontig.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod cleifion Quayside Orthodontics yn cael profiad o ansawdd gan dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd y practis yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd a oedd yn amlwg yn lân, yn fodern ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda. Ategwyd hyn gan gyfres o bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg addas.

Rydym wedi gwneud rhai mân argymhellion i'r practis eu rhoi ar waith, yn unol â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Lefelau uchel o foddhad cleifion a dulliau da o gasglu adborth gan gleifion
- Roedd yr amgylchedd yn fodern ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda, ac roedd wedi'i gefnogi gan asesiadau risg a pholisiâu priodol
- Tystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain da.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi gwasanaeth peiriant ateb ar waith
- Ystyried ffyrdd o arddangos adborth i'r cleifion
- Cynnal mwy o archwiliadau a gweithgareddau sicrhau ansawdd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Quayside Orthodontics (Caerfyrddin) yn darparu gwasanaethau i gleifion ledled ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a thu hwnt.

Mae Quayside Orthodontics hefyd yn gweithredu o ail leoliad yn ardal Doc Penfro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un orthodontydd, pedair nyrs ddeintyddol (y mae un ohonynt yn cyflawni dyletswyddau gweinyddol), y rheolwr cofrestredig a rheolwr cynorthwyol.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth eang o driniaethau orthodontig, gan gynnwys dyfeisiau orthodontig y gellir eu tynnu i ffwrdd a dyfeisiau sefydlog. Mae unionwyr 'invisalign' hefyd ar gael i'r cleifion.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

At ei gilydd, gwelsom fod Quayside Orthodontics yn darparu profiad cadarnhaol i gleifion yn y practis a gwelsom fod prosesau addas ar waith i gefnogi hyn.

Roedd gan y practis ddulliau da ar waith i gasglu adborth gan gleifion a gweithredu arno. Gwelsom hefyd enghreifftiau proffesiynol a chyfeillgar o ryngweithio â'r cleifion drwy gydol y broses arolygu.

Er mwyn hyrwyddo ansawdd y profiad i gleifion yn llawn, rydym wedi gwneud dau argymhelliad i'r practis eu rhoi ar waith mewn perthynas â gwasanaeth peiriant ateb ac arddangos canlyniadau adborth y cleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 39 o holiaduron AGIC. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth gwych, bob amser ar gael yn ôl yr angen"

"Mae'r staff yn gyfeillgar, yn gwrtais ac yn broffesiynol iawn yma. Nid oes unrhyw beth yn ormod o drafferth iddynt. Bob amser yn diwallu fy anghenion"

"Gofal gwych. Mae pob agwedd ar y driniaeth yn cael ei thrafod ymlaen llaw"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd y cleifion yn hollol fodlon ar y practis ac ni wnaethant gynnig unrhyw sylwadau ar gyfer gwella.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth addas o wybodaeth ysgrifenedig am ofal orthodontig, opsiynau triniaeth a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion ei darllen a'i chadw.

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi dweud wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom amrywiaeth o staff yn siarad â chleifion yn bersonol a dros y ffôn mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Dywedodd pob claf y gwnaethom siarad ag ef yn ystod yr arolygiad ei fod yn fodlon ar y gofal roedd yn ei dderbyn.

Cadarnhaodd y staff, pe bai claf am gael sgwrs breifat am ei ofal neu opsiynau triniaeth yna byddai hyn yn digwydd yn un o'r deintyddfeydd neu'r swyddfeydd a oedd ar gael. Gwelsom hefyd fod drysau'r deintyddfeydd ar gau pan oedd cleifion yn derbyn triniaeth er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd polisi cyfrinachedd a diogelu data cynhwysfawr ar waith yn y practis er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd hwn yn ymdrin â materion megis diogelu manylion cleifion, cael gafael ar gofnodion a datgelu gwybodaeth i drydydd partïon.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Dangosodd y practis gopi i ni o'r pecyn gwybodaeth y mae pob claf yn ei dderbyn yn ystod ei apwyntiad cyntaf. Roedd y pecyn hwn yn cynnwys copi dwyieithog o daflen wybodaeth y practis i gleifion a chopïau o unrhyw gynlluniau triniaeth er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r driniaeth y maent yn ei derbyn a'r costau dan sylw.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Dywedodd pob un ohonynt hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Gwelsom fod rhestr brisiau ar gyfer triniaethau preifat wedi'i harddangos yn ardal y dderbynfa. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Gwelsom fod y practis yn arddangos enwau a chymwysterau pob aelod o'r tîm deintyddol mewn ardal lle roedd yn hawdd i'r cleifion eu gweld, fel sy'n ofynnol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Cadarnhaodd y practis fod rhai o'r staff yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion Cymraeg. Roedd y practis hefyd yn arddangos y logo 'Cymraeg' ar ddesg y dderbynfa i ddangos bod gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ar gael.

I gleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, dywedodd y practis wrthym y byddai'n gwneud pob ymdrech i ddysgu am anghenion y cleifion, gan gynnwys eu hanghenion iaith, cyn eu hapwyntiad cyntaf. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos tystiolaeth o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod achosion o oedi yn brin ac y byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi pan fyddent yn cyrraedd, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Gwelsom fod y rhif ffôn ar gyfer argyfyngau y tu allan i oriau wedi'i argraffu ar y daflen wybodaeth i gleifion a dywedwyd wrthym fod prif rif ffôn y practis yn cysylltu â'r rhif hwn pan fo'r practis ar gau. Fodd bynnag, dywedodd tua thraean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC na fyddent yn gwybod sut i gael gafael

ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Dywedodd y practis wrthym nad oedd ganddo system peiriant ateb ar hyn o bryd, ond cawsom wybod bod disgwyl i system o'r fath gael ei gosod yn fuan ar ôl yr arolygiad. Rydym yn argymhell bod system peiriant ateb yn cael ei gosod, gan sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau y tu allan i oriau yn cael ei rhestru a bod y neges a gaiff ei recordio yn ddwyieithog.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis roi gwasanaeth peiriant ateb ar waith.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod yr orthodontydd yn eu holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Mae hyn yn ofynnol gan ganllawiau proffesiynol er mwyn helpu orthodontydd i ddeall clefydau posibl neu nodi meddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth claf.

Yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom, roedd tystiolaeth i gadarnhau bod hanes yn cael ei nodi'n gyson ar gofnodion cleifion a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Roedd y driniaeth a'r gwasanaethau a gynigir gan Quayside Orthodontics yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis¹.

Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cyfle cyfartal yn ei ddatganiad o ddiben sy'n dangos ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael triniaeth deg. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, roedd y polisi'n cydnabod yr angen i ddarparu

¹ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

gwasanaethau a thriniaethau i bob claf, beth bynnag fo'i nodweddion gwarchodedig².

Roedd gan y practis bolisi cleifion newydd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd i'r practis. Roedd copi o'r polisi ar gael i ddarpar gleifion ei weld ar gais.

O ran mynediad ffisegol, roedd y practis wedi'i leoli wrth ymyl maes parcio ac roedd ganddo rywffaint o lefydd parcio ar y ffordd. Mae'r practis yn gweithredu ar lawr gwaelod safle pwrpasol, gan sicrhau mynediad i gleifion â phroblemau symudedd.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y practis wedi cynnal archwiliad o fynediad i bobl anabl yn ddiweddar er mwyn asesu hygyrchedd ei wasanaethau i bawb.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Yn gyffredinol, gwelsom fod gan y practis ddulliau da iawn ar waith i gasglu adborth gan gleifion a gweithredu arno, sy'n helpu i sicrhau ansawdd y profiadau i gleifion ac y caiff gofal diogel ac effeithiol ei ddarparu.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y practis yn defnyddio sawl dull i gasglu adborth gan gleifion:

- Gwelsom fod blwch adborth ac awgrymiadau ar gael yn yr ardal aros ac y gellir rhoi adborth yn ddienw
- Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod dull o gofnodi unrhyw adborth, sylwadau neu gwynion ar lafar ac y gweithredir arnynt yn briodol
- Gwelsom enghreifftiau o holiaduron boddhad cleifion y gofynnir i bob claf eu cwblhau yn ystod eu triniaeth ac unwaith eto ar ddiwedd pob triniaeth. Roedd yr holl adborth a welsom yn gadarnhaol

² Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn drosedd gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchodedig. <https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics>

- Dywedwyd wrthym hefyd fod pob claf yn derbyn galwad ddilynol ychydig ddiwrnodau ar ôl eu triniaeth i gasglu adborth ac i sicrhau eu bod yn fodlon ar eu dyfeisiau orthodontig.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y practis yn gweithredu ac yn myfyrio ar adborth gan gleifion yn briodol. Gwelsom enghreifftiau o gofnodion o gyfarfodydd staff lle y cafodd adborth gan gleifion ei drafod, ac yn ystod trafodaethau â'r Prif Orthodonydd a'r rheolwr cofrestredig, dywedwyd wrthym am y newidiadau a roddwyd ar waith yn dilyn adborth gan gleifion. Yn ogystal â hyn, gwnaethom hefyd nodi bod y practis wedi cwblhau archwiliad boddhad cleifion yn gynharach yn ystod y flwyddyn er mwyn nodi unrhyw themâu a oedd yn codi o'r ymatebion i'r holiaduron cleifion.

Yn sgil yr adborth cadarnhaol ar y cyfan a'r dystiolaeth o'r newidiadau a roddwyd ar waith yn dilyn adborth, byddem yn argymhell bod y practis yn rhoi dull ar waith i arddangos yr adborth hwn i gleifion (e.e. bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni').

Roedd y weithdrefn ffurfiol i'w dilyn gan gleifion a oedd am wneud cwyn neu godi pryder am eu gofal, wedi'i hamlinellu mewn polisi cwynion, a oedd i'w weld yn yr ardal aros a'r daflen wybodaeth i gleifion. Roedd y weithdrefn yn galluogi'r staff i ymdrin ag unrhyw gwynion o'r fath yn amserol ac roedd yn cynnwys cysylltiadau allanol, gan gynnwys AGIC, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried dulliau o arddangos adborth i'r cleifion

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod Quayside Orthodontics yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod pob rhan o safle'r practis yn fodern ac wedi'i chynnal a'i chadw i safon uchel ac ategwyd hyn gan amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg priodol.

Gwelsom fod y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau yn gadarn yn ogystal â thystiolaeth o wiriadau dyddiol er mwyn sicrhau safonau cyson bob amser.

Roedd amrywiaeth o archwiliadau eisoes ar waith a gwnaethom nodi rhai archwiliadau ychwanegol y dylai'r practis eu rhoi ar waith er mwyn gwella ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir ymhellach.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff y practis ac ymwelwyr â'r practis. Roedd gan y practis bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas at y diben.

Wrth fynd o gwmpas y safle, roedd pob ardal yn lân, yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd ardaloedd y cleifion yn fawr, yn groesawgar ac wedi'u cwblhau i safon ragorol. Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn gyffredinol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan ac roedd mewn cyflwr da.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y labordy deintyddol wedi'i gofrestru â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)³ i weithgynhyrchu a darparu deunyddiau orthodontig wedi'u teilwra.

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r staff a phobl a oedd yn ymweld â'r practis yn ddigonol pe byddai tân:

- Roedd saith aelod o staff y practis wedi cael hyfforddiant tân yn ddiweddar
- Roedd asesiad risg tân wedi cael ei gynnal yn ddiweddar ac roedd y camau gweithredu wedi'u hadolygu a'u cwblhau
- Roedd y dyfeisiau diffodd tân ym mhob rhan o'r practis wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd contract cynnal a chadw cyfarpar tân ar waith
- Roedd profion larymau tân wedi cael eu cynnal yn wythnosol a'u cofnodi'n briodol
- Roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng ac roedd gwiriadau o oleuadau argyfwng wedi cael eu cynnal a'u cofnodi'n fisol
- Roedd ymarfer tân ar gyfer yr adeilad cyfan wedi'i drefnu ar gyfer y mis yn dilyn yr arolygiad.

Roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg. Roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn y practis er mwyn hysbysu'r staff o'r ffordd orau i amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Roedd y pecyn cymorth cyntaf wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn cael ei gadw mewn lleoliad hygyrch. Roedd nyrs ddeintyddol llawn amser wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf a'r nyrs hon oedd swyddog cymorth cyntaf penodedig y practis. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried hyfforddi aelodau eraill o'r staff er mwyn sicrhau bod aelod o'r staff ar y safle bob amser sydd

³ Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i wneuthurwyr dyfeisiau deintyddol wedi'u teilwra gofrestru â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf, er enghraifft i gyflenwi yn ystod cyfnodau o absenoldeb.

Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddadebru cardio-anadlol (CPR). Roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁴.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth bod mesurau rheoli heintiau addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn fodern ac yn amlwg yn lân, gan ddilyn llwybr dihalogi budr i lân. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Gwelsom fod yr awtoclaf⁶ yn cofnodi ei gylchrediadau'n ddigidol. Gwelsom dystiolaeth o gofnodlyfr a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol er mwyn sicrhau bod cyfarpar sterileiddio, gan gynnwys y bath uwchsain, yn gweithredu'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu. Roedd hyn hefyd yn cynnwys tystiolaeth o dystysgrif arolygu gwaith cynnal a chadw dilys.

Gwelsom fod y staff yn symud offerynnau glân ac wedi'u defnyddio yn briodol rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi mewn bocsys caeedig er mwyn helpu i atal achosion o groes-halogi. Gwnaethom hefyd nodi, lle na chaiff eitemau untro eu defnyddio, bod gan y practis ddulliau ac adnoddau priodol i

⁴ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

⁶ Dyfais yw awtoclaf meddygol sy'n defnyddio ager i sterileiddio offer a gwrthrychau eraill.

sicrhau bod yr offerynnau'n cael eu sterileiddio ymlaen llaw yn gywir fel rhan o'r broses ddihalogi gyffredinol.

Roedd contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel ar lawr gwaelod isaf y safle.

Cawsom olwg ar gofnodion y staff a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbyniol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd toiledau staff a chleifion, a chyfleusterau newid ar gael yn y practis. Gwelsom fod cyfleusterau cynhyrchion mislif priodol yn ystafell y toiled, a chawod at ddefnydd y staff. Roedd digon o le hefyd i'r staff storio eitemau personol yn y practis.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom dystiolaeth bod cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis a oedd yn cyrraedd safonau'r Cyngor Dadebru (DU)⁷ a bod yr eitemau hyn yn cael eu storio'n briodol. Gwelsom hefyd dystysgrif gwasanaethu ddilys ar gyfer silindr ocsigen y practis.

Gwelsom fod y practis yn storio meddyginiaethau a chyffuriau brys yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cwblhau a'u cofnodi ar daflen gofnodi briodol.

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer dadebru a rheoli argyfyngau meddygol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar ddadebru. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion

⁷ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn⁸, er mwyn helpu'r MHRA i fonitro a yw cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu cyfredol ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys manylion i'r staff roi gwybod yn briodol i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon.

Y rheolwr cofrestredig oedd arweinydd diogelu y practis, a oedd yn gyfrifol am oruchwylio materion diogelu. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gwybodaeth am faterion diogelu yn cael ei rhannu drwy sesiynau sefydlu a hyfforddiant staff ac yr ystyrir darparu hyfforddiant mewnol yn y dyfodol. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol ac anghlinigol wedi cael hyfforddiant ffurfiol i lefel briodol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn y practis, gan gynnwys y cyfarpar deintyddol, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Cawsom olwg ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel a gwelsom fod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Roedd y staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ìoneiddio
- Roedd polisi ymbelydredd ar waith ac roedd y rheolau lleol⁹ wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar radiograffig (pelydr-X) er mwyn

⁸ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

⁹ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

nodir gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y cyfyngir ar amlygiad staff i ymbelydredd

- Cafodd archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-x eu cwblhau fel rhan o broses sicrhau ansawdd y practis er mwyn nodi unrhyw broblemau posibl wrth gynnal profion pelydr-x. Yn y sampl o gofnodion a welsom, roedd pob delwedd wedi cael gradd 1 yn yr archwiliad (ansawdd gorau posibl). Fod bynnag, byddem yn argymhell bod y practis yn ystyried defnyddio Adnodd Gwella Ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru¹⁰ ar gyfer Ymbelydredd Ioneiddio yn ffurfiol wrth gynnal archwiliadau.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal nifer o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau o drefniadau cadw cofnodion clinigol, cyfiawnhad dros archwiliadau radiograff a defnyddio pelydr-x. Roedd polisi ar gyfer archwiliadau clinigol ar waith ac roedd yr archwiliadau wedi cael eu hadolygu gan dîm y practis.

Roedd y practis hefyd wedi cwblhau hunanasesiad ar reoli heintiau, ond nid oedd wedi cwblhau adnodd archwilio WHTM 01-05 Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Rydym yn argymhell bod y practis yn cwblhau hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn ag unrhyw fesurau sy'n benodol i Gymru. Argymhellwn hefyd y dylai'r practis gynnal archwiliad rhoi'r gorau i smygu integredig Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Gwelsom fod triniaeth yn cael ei rhoi yn unol â'r datganiad o ddiben a chanllawiau Cymdeithas Orthodontig Prydain¹¹ a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

¹⁰ <https://aagic.gig.cymru/>

¹¹ Cymdeithas Orthodontig Prydain – <https://www.bos.org.uk/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gwblhau archwiliadau WHTM 01-01 a Rhoi'r Gorau i Smygu Integredig Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y practis yn cymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid i gefnogi a gwella sgiliau'r tîm clinigol.

Efallai yr hoffai'r practis hefyd ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth ¹²Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n annog timau practisau deintyddol i gydweithio er mwyn nodi meysydd i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Nid yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil felly nid oedd polisi na gweithdrefn ar waith.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu a diogelwch data ar waith yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd data a chofnodion y cleifion yn cael eu storio'n electronig ar gyfrifiaduron a ddiogelir gan gyfrinair. Caiff copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig eu gwneud yn rheolaidd a'u cadw oddi ar y safle fel y gellir cael gafael ar y data gwreiddiol os oes angen.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom gofnodion da iawn yn y sampl o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym, sy'n cefnogi'r practis i ddarparu gofal o ansawdd i'r cleifion. Y rheswm am hyn yw bod cofnodion y cleifion yn glir, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cofnod cywir o hanes meddygol a chymdeithasol, asesiadau, cynlluniau triniaeth a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion.

¹² <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Yn ogystal â hyn, gwelsom fod cynnydd triniaeth yn cael ei fonitro'n addas ac yn cael ei gofnodi'n briodol gan ddefnyddio delweddau radiograffig digidol a sganiau 3-D. Mae hyn yn galluogi'r practis i gofnodi mesuriadau manwl gywir heb fod angen defnyddio castiau plaster traddodiadol yn rheolaidd.

Gwnaethom hefyd nodi bod sgoriau Graddau Asesiadau Cymheiriaid (PAR)¹³ yn cael eu cofnodi ym mhob achos, sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol i'r practis ei wneud. Mae hyn yn helpu i fonitro a sicrhau ansawdd y driniaeth a ddarperir i'r cleifion ymhellach.

¹³Mae Graddau Asesiadau Cymheiriaid (PAR) yn fesur cadarn a dibynadwy ar gyfer asesu safon triniaeth orthodontig y mae orthodontydd yn ei darparu.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd tystiolaeth o ddiwylliant gwaith da yn Quayside Orthodontics ac roedd hyn yn amlwg yn y dulliau arwain a rheoli brwdfrydig.

Gwelsom y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent yn cael y cyfleoedd hyfforddi priodol i'w galluogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r Prif Orthodonydd a'r Rheolwr Cofrestredig yn berchen ar Quayside Orthodontics ar y cyd. Caiff y practis ei gefnogi gan dîm o staff clinigol ac anghlinigol.

Gwelsom fod gan y practis arweinwyr brwdfrydig a llinellau atebolrwydd clir. Roedd yn amlwg bod y Prif Orthodonydd, y rheolwr cofrestredig a'r tîm ehangach yn cymryd gofal mawr wrth gyflawni eu gweithgareddau clinigol ac anghlinigol ac ymfalchïo'n fawr ynddynt. Gwelsom hefyd fod pob aelod o'r staff yn cydweithio'n dda, ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y polisiau wedi cael eu teilwra i ddiwallu anghenion y practis a'u hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau. Gwelsom hefyd fod aelodau o'r staff wedi cael eu hysbysu am y polisiau a'r gweithdrefnau hyn yn ystod y broses sefydlu.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol er mwyn ymarfer, ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer. Gwnaethom nodi bod tystysgrifau wedi'u harddangos, sy'n dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus..

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran rhoi gwybod i AGIC am ddigwyddiadau penodol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

At ei gilydd, roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan y staff gontract cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Roedd aelodau newydd o'r staff yn cael rhaglen sefydlu a chyfnod prawf.

Cadarnhaodd y practis fod y staff yn cael arfarniadau o leiaf unwaith y flwyddyn a'u bod wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn galluogi'r staff i nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod a'u hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Roedd y practis wedi cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu a staffio gwasanaethau orthodontig yn ardal Gorllewin Cymru ac mae'n mynd i'r afael â hyn yn y tymor byr drwy helpu un o'i nyrsys deintyddol i ddilyn rhaglen hyfforddiant Therapydd Orthodontig yn y dyfodol. Dywedwyd wrthym hefyd y bydd gan y practis gapasiti yn y dyfodol i dderbyn mwy o gleifion drwy recriwtio mwy o aelodau o staff, cynnig oriau gweithredu hirach a darparu mwy o ardaloedd trin clinigol yn y practis.

Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio darpar aelodau newydd o'r staff ac roedd yn cynnwys gwiriadau cyn-cyflogi priodol y byddai'r practis yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o'r staff yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'u diogelu'n addas er mwyn gweithio gyda chleifion.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob aelod o'r staff clinigol sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd blaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion ac aelodau eraill o'r staff.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban (lleisio barn) ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion. Roedd y polisi'n cynnwys trefniadau cyfeirio clir ar gyfer codi pryderon yn fewnol ac yn allanol ond nid oedd yn cynnwys manylion ar gyfer AGIC. Dylai'r practis ddiweddarau ei bolisi i gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Gwelsom fod gan y practis bolisi anafiadau nodwydd ar waith, gan gynnwys protocol ar gyfer anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog, y dylid ei ddilyn pe bai yna anaf yn ymwneud ag offer miniog.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ychwanegu AGIC at ei bolisi chwythu'r chwiban.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgysfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgysfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Quayside Orthodontics (Caerfyrddin)

Dyddiad arolygu: 11 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dd/G				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Tudalen 29 o 31

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Quayside Orthodontics (Caerfyrddin)

Dyddiad arolygu: 11 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis roi gwasanaeth peiriant ateb ar waith	Safonau Iechyd a Gofal 5.1 Mynediad amserol	Rhodddwyd gwasanaeth peiriant ateb dwyieithog ar waith ar 9 Rhagfyr 2019 yn nodi ein horiau agor a sut i gael gafael ar ofal y tu allan i oriau	Rebecca Davies	Cwblhawyd 9/12/19
Dylai'r practis ystyried dulliau o arddangos adborth i'r cleifion.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Rydym yn bwriadu gosod hysbysfwrdd yn yr ystafell aros sy'n dangos y newidiadau rydym wedi'u gwneud mewn ymateb i adborth gan gleifion	Rebecca Davies	Caiff ei osod erbyn 31/01/20
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis gwblhau archwiliadau WHTM 01-01 a Rhoi'r Gorau i Smygu Integredig Addysg a	Rheoliadau Deintyddiaeth	Cafodd cais ei gyflwyno am yr archwiliad rhoi'r gorau i smygu	Rebecca Davies	cyflwynwyd 02/12/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwella lechyd Cymru.	Breifaf (Cymru) 2017 a 16	integredig ar 2 Rhagfyr 2019		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r practis ychwanegu AGIC at ei bolisi chwythu'r chwiban.	7.1 Y Gweithlu;	Rydym wedi ychwanegu cyswllt AGIC i'n polisi chwythu'r chwiban	Rebecca Davies	20/12/19

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Rebecca Davies

Teitl swydd:

Rheolwr y practis/Perchennog y practis

Dyddiad:

20/12/19